

Croeso i'n trydedd newyddlen ni!

Mae llawr o gartrefi a busnesau'r Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd ym mherygl llifogydd Nant Lleucu a Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio â phartneriaid er mwyn dylunio a chyflawni cynllun rheoli perygl llifogydd yng nghymuned y Rhath. Amcana'r newyddlen hon roi gwybod i chi am hynt y cynllun.

Beth ydym ni'n ei wneud?

Rydym yn datblygu'r dyluniadau cysyniadol o Lyfrgell Pen-y-lan i lawr at siop Morrison ar Heol Casnewydd. Mae barn preswylwyr lleol a chyrff statudol yn helpu llunio'r dyluniad. Rydym yn defnyddio lefelau afon a gofnodwyd adeg digwyddiadau fel yr ymchwylld llanwol yn Ionawr, i ddilysu rhagolygon perygl llifogydd. Archwiliwyd y tir er mwyn adnabod nodweddion pridd ledled y safle ym Mehefin 2014. Rydym nawr yn profi'r samplau er mwyn ategu'r cynllun.



Mehefin 2014 -
Archwilio'r tir.

Er mwyn cysylltu â ni neu dderbyn newyddlen:

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk

Adborth o gyfarfod cyhoeddus ac arddangosfa Mai

Cawsom adborth gwerthfawr iawn adeg ein cyfarfod galw-heibio cyhoeddus ym Mai. Dyma atebion cryno i rai pryderon cyffredin.

Cymeriad gerddi'r parc

Mae ein tîm yn canolbwyntio ar leihau effaith y cynllun ar gymeriad y parc. Bydd y dyluniad yn darparu safon gyson o ddiogelwch i'r gymuned rhag llifogydd. Cynigir argloddiau tirluniedig, lle bo modd. Lle byddai argloddiau'n effeithio er gwaeth ar goed sydd â blaenoriaeth, yna ystyrir waliau llifogydd, wedi'u gorchuddio neu'u sgrinio mewn modd addas. Yng Ngerddi Waterloo, roedd cefnogaeth i waith yn ymyl y Nant, o flaen gwaith o amgylch ffin y parc. Cefnogwyd cyfleoedd i gynyddu gwerth mwynderol a bywyd gwyllt Gerddi'r Rheilffordd (a elwir yn "Minster Gardens" a'r "Sandings", hefyd.

Ymddygiad gwrth-gymdeithasol

Un o brif amcanion y dyluniad yw sicrhau nad yw'r amddiffynfeydd yn creu manau a fyddent yn hwyluso ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn ystyried sut y defnyddir y manau cyhoeddus, ac y'u cyfunir yn y gofod cyhoeddus ehangach.

Beth nesaf?

Cyfarfod Cyhoeddus Medi'r 8fed

Rydym yn awyddus iawn i breswylwyr, busnesau a defnyddwyr y parc ddod i'r sesiwn galw-heibio nesaf ar yr 8fed o Fedi 2014 yn Ysgol Gynradd Marlborough ar Heol Blenheim unrhyw bryd rhwng 2:30 y pñawn a 7:30 yr hwyr. Byddwn yn arddangos dewisiadau dyluniadr ac yn gwrandao barn.

Yn y cyfamser, os collasoch ein harddangosfa ym Mai, bydd ein tîm yng ngarddwest Gerddi Waterloo ar yr 17eg o Awst. Gallwch ymweld â'n stondin a chyfarfod rhai o aelodau ein tîm. Bwriadwn gyflwyno ein cais cynllunio yn hydref 2014, er mwyn dechrau adeiladu yn 2015.

Coed

Mae ein tîm yn gweithio ag ymgynghoreion er mwyn cyfyngu ar effaith y cynlluniau ar goed. Penderfynwyd rhoi'r flaenoriaeth i ddiogelu sawl coeden. Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd i blannu coed newydd yn lle rhai afiach.

Rheiliau'r parc

Mae rheiliau'r parc yn nodwedd bwysig. Lle bo angen gwella ffin y parc, rydym yn ceisio'u cynnwys yn y dyluniad lle bynnag y bo modd.

Tarfu oherwydd adeiladu

Pan fydd y dyluniad wedi'i ddatblygu rhagor, cynlluniwn yn ofalus ffyrdd mynediad y safle, gan drefnu ac amseru'r gwaith er mwyn effeithio cyn lleied ag y bo modd ar breswylwyr ac ymwelwyr.